PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER

Horizon Nuclear Power
Sunrise House
1420 Charlton Court
Gloucester Business Park
Gloucester
GL3 4AE
T +44 (0) 1242 508508

YNNI YN GWEITHIO I BRYDAIN

DATGANIAD NEWYDDION

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
12 Mawrth 2019

Dewch i gwrdd â thîm Horizon yng Nghymhorthfa Agored mis Mawrth

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn gwahodd pobl leol i gwrdd â'r tîm yn ei Gymhorthfa Agored nesaf ddydd Llun 18 Mawrth.

Does dim angen trefnu apwyntiad ar gyfer y sesiwn galw heibio, a fydd yn cael ei chynnal rhwng 1pm a 6.30pm yn Neuadd Bentref Cemaes. Bydd tîm Horizon ar gael i siarad â phobl leol ac i ateb unrhyw gwestiynau am Brosiect Wylfa Newydd.

Dywedodd Richard Foxhall, Rheolwr Materion Allanol Cymru yn Horizon: "Mae ein Cymorthfeydd Agored yn ffordd wych i ni gwrdd â phobl leol a siarad â nhw am Brosiect Wylfa Newydd. Rydyn ni'n gwybod bod gan rai pobl gwestiynau o hyd yn dilyn y penderfyniad diweddar i ohirio'r prosiect, felly rydyn ni'n annog pawb sydd eisiau gwybod mwy i ddod i gwrdd â'r tîm".

Mae rhagor o wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ar gael yn www.horizonnuclearpower.com, neu drwy ffonio 0800 954 9516, anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com neu ddilyn Horizon ar Twitter @horizonnuclear ac Instagram 'horizonnuclear'.

- DIWEDD -

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Richard Foxhall – 07807 769265 neu richard.foxhall@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

- Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd o Japan ym mis Tachwedd 2012.

- Bydd datblygiad Horizon ar Ynys Môn yn golygu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd yng ngogledd Cymru, gan greu cyfleoedd cyflogaeth tymor hir o ansawdd da ac arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol parhaol i'r rhanbarth.